Adroddiad ar yr amserlen ar gyfer ystyried Bil yr Undebau Llafur (Cymru)

Ionawr 2017

Ar 16 Ionawr 2017, cafodd Bil Llywodraeth, Bil yr Undebau Llafur (Cymru), ei gyflwyno yn y Cynulliad.

Ar 6 Rhagfyr 2016, cytunodd y Pwyllgor Busnes, yn unol â Rheol Sefydlog 26.9, i gyfeirio'r Bil at y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau er mwyn iddo ystyried yr egwyddorion cyffredinol a chyflwyno adroddiad arnynt.

Ar 13 Rhagfyr 2016, yn unol â Rheol Sefydlog 26.7, trefnodd y Pwyllgor Busnes amserlen i'r Pwyllgor ystyried egwyddorion cyffredinol y Bil a chytunodd y dylai'r Pwyllgor gyflwyno adroddiad i'r Cynulliad erbyn 7 Ebrill 2017.

Cytunodd y Pwyllgor Busnes hefyd y dylid cwblhau trafodion Cyfnod 2 erbyn 16 Gorffennaf 2017, ar yr amod bod y Cynulliad yn cytuno ar egwyddorion cyffredinol y Bil.